# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-11-09 Papur 3: 7 Gorffennaf 2009

### Deisebau newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am bob un o'r deisebau a gafodd eu trafod am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 7 Gorffennaf 2009.

### (i) P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol

### Geiriad y ddeiseb

Mae'r Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i weithredu'r safon ar gyfer cwympo a thorri esgyrn yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yn llawn, gan sicrhau bod cleifion sydd wedi torri esgyrn oherwydd breuder, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u trin gan wasanaethau cyswllt torri esgyrn ym mhob un o'r Byrddau Iechyd Lleol newydd. Hoffwn weld gwasanaeth cyswllt torri esgyrn yn cael ei gysylltu â phob ysbyty sy'n trin cleifion sydd wedi torri esgyrn oherwydd breuder a gofynnwn i Lywodraeth Cymru fynnu bod gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael eu darparu'n gyffredinol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol, a chafwyd 18 o lofnodion.  Mae'r deisebwr wedi paratoi datganiad ategol, sydd wedi'i atodi fel rhan o PET (3)-11-09 Papur 3A.

**(ii) P-03-223 Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddiwygio ac i wneud gwelliannau i Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg, i ddod ag Aelodau Seneddol o dan adain Deddf yr Iaith Gymraeg.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb gan y Cynghorydd O Arfon Jones, a chafwyd 23 o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi cyflwyno gwybodaeth ategol, sydd wedi'i atodi fel rhan o PET(3)-11-09 Papur 3A.

**(iii) P-03-225 Coleg Gorseinon**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i roi arian ychwanegol i Coleg Gorseinon i sicrhau bod cyrsiau a dosbarthiadau yn parhau i gael eu cynnal a'u cynnig.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Tracy Bates, a chafwyd 800+ o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi cyflwyno copïau o'r ohebiaeth rhyngddi a Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, sydd wedi'i atodi fel rhan o PET(3)-11-09 Papur 3A.

**(iv) P-03-226 Sands - yr elusen dros farw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i:

1. gymryd sylw o'r 'Saving Babies' Lives Report 2009', a gyhoeddwyd gan Sands i gefnogi ei ymgyrch 'Why 17?'

2. datblygu strategaeth i leihau nifer y marw-enedigaethau a'r marwolaethau ymysg plant newydd-anedig yng Nghymru

3. ariannu ymchwil pellach i wella'r ddealltwriaeth ynghylch pam mae marw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig yn digwydd

4. datblygu darpariaeth gofal cynenedigol o safon aur ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru

5. gweithio gyda Sands i wella'r ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r materion hyn.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Sands - yr elusen dros farw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig, a chafwyd 816 o lofnodion.  Mae Sands wedi cyhoeddi adroddiad 'Saving Babies Lives', y gallwch ei ddarllen drwy glicio ar y linc isod:

h

ttp://www.why17.org/fileadmin/content/About_Sands/03520_Saving_babies_lives_watermarked.pdf

**P-03-231 Agosrwydd tyrbinau gwynt at anheddau preswyl**

**Geiriad y ddeiseb**

Gofynnwn i'r Cynulliad adolygu'r farn bresennol ynglŷn ag agosatrwydd tyrbinau gwynt at gartrefi, sy'n 500m ar hyn o bryd. (gweler paragraff 3.4, Atodiad D i TAN 8).

Gofynwn i'r pellter lleiaf fod yn 2KM, fel y mae yn yr Alban.

Ar wahân i'r broblem o ran sŵn, bu nifer o ddamweiniau ac mae agosatrwydd y tyrbinau at gartrefi yn effeithio ar amwynder gweledol y preswylwyr.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Grŵp Gweithredu Glyncorrwg, a chafwyd 171 o lofnodion.

**P-03-232 Coetir Ffynone a Chilgwyn**

**Geiriad y ddeiseb**

Mae Cyngor Cymuned Manordeifi Community Council yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad annibynnol i'r cyllid a roddwyd i Calon yn Tyfu / Growing Hearts Ltd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer prynu coetiroedd Ffynone a Chilgwyn yng Ngogledd Sir Benfro o dan Gynllun Cydcoed, a ariennir yn gyhoeddus.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Gyngor Cymuned Manordeifi Community Council, a chafwyd 329 o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi cyflwyno gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r ddeiseb, sydd wedi ei atodi fel rhan o PET(3)-11-09 Papur 3A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Gorffennaf 2009**